**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**GWRANDAWIAD CADARNHAU – 4 MEHEFIN 2013**

**BWRIAD COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU I BENODI PRIF SWYDDOG CYLLID**

## Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

## Bwriad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i benodi Prif Swyddog Cyllid

Cynhaliodd y Panel wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Mawrth, 4 Mehefin 2013.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn enwebu Kate Jackson i swydd statudol Prif Swyddog Cyllid ei swyddfa.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel y penodiad bwriedig a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd statudol hon.

Cydnabu'r Aelodau allu proffesiynol yr ymgeisydd a'i phrofiad sylweddol o gyfrifeg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd y Panel yn fodlon fod Ms. Jackson yn ateb meini prawf gofynnol y swydd.

## Argymhellion

**Dylid penodi Kate Jackson yn Brif Swyddog Cyllid Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

Mehefin 2013